# CASE STUDY: *THE WORLD'S END* (Wright, 2013):
## Arddangosiad 1

## Gweithgaredd wrth gyrraedd

**Trafodwch mewn parau. Pam mae penwythnos agoriadol ffilm mor bwysig i'w llwyddiant cyffredinol?**

## Tasg 1

**Darllenwch y darn canlynol o wefan *Screen Daily* sy'n ymwneud ag agoriad sinema The World's End yn y DU.**

***Monsters University* ar y blaen o ran gwerthiant tocynnau yn y DU**
22 Gorffennaf, 2013 | Gan Ian Sandwell

Mae'r ffilm wedi'i hanimeiddio gan Disney, sy'n rhoi'r hanes cyn y ffilm *Monsters Inc*, wedi ychwanegu $4.3m (£2.8m) er mwyn cyrraedd y brig am yr ail wythnos yn olynol. Mae *The World's End* gan Universal wedi dioddef yn sgil y gystadleuaeth, gan agor gyda $3.2m (£2.1m).

Gan drechu'r gystadleuaeth gan yr haul a *The World's End*, mae ***Monsters University*** yn dal ar y brig yn swyddfa docynnau'r DU am yr ail wythnos yn olynol.

Enillodd yr ail ffilm wedi'i hanimeiddio gan Disney ym masnachfraint *Monsters* grynswth o $4.3m (£2.79m), gan gofnodi cyfartaledd uchaf yr 20 gorau ar y safle ar $8,044 (£5,246). Mae'r ffilm ddiweddaraf hon gan Pixar Animation Studios bellach wedi ennill $13.2m (£8.63m) yn y DU.

Bydd *Monsters University* yn gobeithio y bydd gwyliau'r ysgol yn rhoi hwb i'r ffilm, wrth iddi geisio olrhain canlyniadau blaenorol ffilmiau Pixar yn y DU. Y gyntaf yn ei ffordd yw Cars 2 ar $23.95m (£15.6m) a Cars ar $25.2m (£16.45m).

Efallai y bydd llwyddiant ysgubol *Monsters Inc.* yn y DU, sef $58.1m (£37.9m) yn anoddach ei guro.

**UNIVERSAL**

*The World's End* yw'r ffilm glo yng nghyfres Three Flavours Cornetto Edgar Wright. Mae pobl wedi bod yn disgwyl yn eiddgar amdani, a chafodd ddechrau cadarn, os ychydig yn ddinod, yn y DU, gan orfod bodloni ar yr ail safle.

# CASE STUDY: *THE WORLD'S END* (Wright, 2013):
## Arddangosiad 1

Ar gyfartaledd o $6,128 (£3,997), enillodd y comedi ffuglen wyddonol grynswth o $3.2m (£2.11m), a dioddefodd o ganlyniad i dywydd poeth parhaus yn y DU.

O'i chymharu â'r ffilmiau a ddaeth o'i blaen, agorodd *The World's End* o flaen *Shaun of the Dead* ($2.5m/£1.6m) ond y tu ôl i *Hot Fuzz* ($9.1m/£5.9m gan gynnwys $2.5m/£1.6m mewn rhagddangosiadau). Mae'n werth nodi bod *Shaun of The Dead* a agorodd ym mis Ebrill, a *Hot Fuzz* a agorodd yn mis Chwefror wedi osgoi cyfnod ffilmiau mawr Hollywood.

Aeth *Hot Fuzz* yn ei blaen i ennill $32.2m (£20.99m) yn y DU, ond y targed cyntaf ar gyfer *The World's End* yw'r $10.3m (£6.69m) a enillodd *Shaun of the Dead*.

## Gwaith dilynol

- **Ysgrifennwch beth rydych chi wedi ei ddysgu am fethiant cymharol *The World's End* yn swyddfa docynnau'r DU, trwy edrych ar yr ystadegau hyn.**
- **Cynhaliodd Universal nifer o ragddangosiadau ar gyfer *The World's End* ar 18 Gorffennaf 2013, un diwrnod cyn i'r ffilm gael ei rhyddhau. Rhowch resymau pam roedd hyn yn rhan allweddol o strategaeth arddangos y cwmni.**

  **http://www.edgarwrighthere.com/**

**Mewn parau, trafodwch a gwnewch nodiadau ar y canlynol:**

- **Pa broblemau sydd yn ymwneud ag agoriad *The World's End*?**
- **Ydych chi'n credu y gallai Universal fod wedi osgoi rhai o'r problemau hyn?**
- **Sut gallech chi ddatblygu strategaeth ryddhau wahanol ar gyfer y ffilm hon?**

# CASE STUDY: *THE WORLD'S END* (Wright, 2013):
## Arddangosiad 1

## Tasg 2

Mae hon yn **dasg grŵp fach** a fydd, gobeithio, yn creu arddangosiad diddorol yn seiliedig ar lwyddiant *The World's End* yn swyddfa docynnau'r DU.

Mae Sefydliad Ffilm Prydain (*BFI: British Film Institute*) yn cynnig ystadegau fesul wythnos ar gyfer gwerthiant tocynnau yn y DU, ac mae'r wybodaeth hon yn ffordd ddiddorol iawn o asesu sut mae ffilm yn adeiladu ar benwythnos agoriadol cryf, neu beidio. Mae'n cofnodi'r 15 ffilm fwyaf llwyddiannus yn y DU yr wythnos honno, ac mae hefyd yn cofnodi lle mae ffilmiau eraill y DU wedi cyrraedd.

Ewch i wefan BFI i weld yr ystadegau ar gyfer y penwythnos. Maen nhw ar ffurf taenlen

- Cliciwch ar *Education and research*
- Yna *Film industry statistics and reports*
- Yna *Weekend box office figures*
- Ewch yn gyntaf at y ffigurau ar gyfer y penwythnos **19-21 Gorffennaf 2013** a chofnodwch y wybodaeth ganlynol:
  Faint o **arian** wnaeth y ffilm ei ennill?
  Ar sawl **sgrin** y cafodd ei hagor?

- Yna edrychwch ar y penwythnosau dilynol canlynol sef **26-28 Gorffennaf, 2-4 Awst, 9-11 Awst** a chofnodi'r canlynol:
  Yr **arian** a enillwyd
  Y **sgriniau** a oedd yn dangos y ffilm
  Y **gwahaniaeth canrannol (%)** o'r wythnos ddiwethaf.

Dewiswch **ddwy ffilm Hollywood** oddi ar y rhestr ac, mor greadigol â phosibl, cymharwch y ffigurau hyn â *The World's End* dros y cyfnod hwn o bedair wythnos. Ewch ati i greu graff lliwgar y gellir ei gopïo a'i ddefnyddio fel poster yn yr ystafell ddosbarth.